# BWRDD PENSIWN DYDD MAWRTH, 24 MEDI 2019

**Yn bresennol**: Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd), H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau), a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau).

**Swyddogion**:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Osian Roberts yn Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn 2019 – 2020**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Aled Evans yn Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn am y cyfnod 2019-2020**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Huw Trainor
Amlygwyd y byddai sedd wag ar gyfer cynrychiolydd cyflogwyr yn cael ei hysbysebu cyn y cyfarfod nesaf.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

**Cynrychiolaeth Aelodau'r Bwrdd mewn Cynadleddau**

Cynhadledd Flynyddol y 'Local Authority Pension Fund Forum' (LAPFF)
4-6 Rhagfyr 2019, Yr Hilton, Bournemouth
**Osian Richards**

Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL,
23-24 Ionawr 2020, Y Principal Hotel, York
**Sharon Warnes**

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION A MATERION YN CODI O'R PWYLLGOR PENSIYNAU

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019.

Awgrymwyd cynnwys adroddiad Datganiad o Gyfrifon 2019-20 ac adroddiad ISA260 yr archwiliwr allanol i raglen y Bwrdd Medi 2020.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion.

## 8. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

Croesawyd Meirion Jones i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Rheolwr Pensiynau. Amlygwyd bod Meirion yn olynydd i Nic Hopkins, cyn Rheolwr Pensiynau, sydd ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg. Croesawyd hefyd Delyth Jones-Thomas i'r cyfarfod. Eglurwyd bod Delyth yn olynydd i Caroline Roberts, cyn Rheolwr Buddsoddi, sydd hefyd ar gyfnod o ymddeoliad hyblyg.

Llongyfarchwyd Meirion a Delyth ar eu penodiadau. Diolchwyd i Nic a Caroline am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd a dymunwyd ymddeoliad hapus i'r ddau

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Rheolwr Pensiynau yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiwn dros y 6 mis diwethaf ynghyd a gwybodaeth am y gwaith a gyflawnwyd dros y cyfnod, diweddariad ar amrywiol brosiectau ynghyd a rhestr o'r heriau yr oedd yr Uned Weinyddu yn eu hwynebu o ddydd i ddydd.

Yn ystod y drafodaeth, nododd yr Aelodau y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd i'r staff am annog a chynnal trafodaethau gyda chyflogwyr i geisio cyflwyno gwybodaeth cywir ac amserol.
- Llongyfarchwyd y cyflogwyr am sicrhau data glan ac amserol
- Bod angen gosod amserlen bendant ar gyfer y cyflogwyr hynny sydd angen trosglwyddo i ddefnyddio system i-connect.
- Awgrymwyd cynnal cyfnod prawf ar gyfer treialu'r wefan hunanwasanaeth

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 9. PRISIAD ACTIWARAIDD TEIR-BLYNYDDOL 2019

Cyflwynwyd, adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn darparu gwybodaeth gyffredinol a throsolwg o'r broses prisio gyfredol ar gyfer cynnal prisiad actiwaraidd teir-blynyddol, ynghyd ag amserlen arfaethedig.

Eglurwyd bod data'r prisiant wedi ei gyflwyno i'r actwari ar y 16eg o Orffennaf a bod gwaith eisoes wedi ei ddechau ar yr ymateb i ymholiadau pellach a gafwyd gan Hymans. Y disgwyliad yw gwella ar ganlyniad y prisiad 2016, sef cyfran ariannu o 92%

Nodwyd mai cyfrifoldeb y cyflogwyr yw cyflwyno gwybodaeth gywir ac amserol i swyddogion yr Uned Pensiynau. Adroddwyd bod ansawdd y data eleni yn dderbyniol ar yr olwg gyntaf, a bod pob cyflogwr wedi cwrdd gyda'r gofynion amser.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phroffiliau risg y cyflogwyr, amlygodd y Pennaeth Cyllid bod cyflogwyr yn sefydlog a bod cyflogwyr / cwmnïau newydd i'r gronfa bellach gyda gwarant.

Diolchwyd am y wybodaeth a gwnaed sylw, wrth ystyried yr amserlen, bod y broses o brisio yn amlwg yn flwyddyn o waith

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 10. RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid er mwyn egluro a chraffu rhagdybiaethau. Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau wedi ystyried a chymeradwyo rhagdybiaethau yn y Crynodeb Gweithredol er mwyn gosod targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blynyddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019. Cyfeiriwyd at fanylion llawn y rhagdybiaethau mewn adroddiad a dderbyniwyd gan Actwari'r Gronfa oedd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Adroddwyd mai un newid o sylwedd oedd i'r rhagdybiaethau, sef rhagdybiaeth codiadau cyflog. Yn dilyn cyngor gan Hymans penderfynwyd addasu'r ffigwr i CPI +0.3% fyddai'n ymateb i ddisgwyliadau codiadau cyflog tymor byr uwch, gan adlewyrchu'r tueddiad diweddar. Ategwyd y byddai'r rhagdybiaethau yn cael eu gosod yn yr adolygiad ar gyfer y prisiad ac y byddai trafodaethau a chyngor proffesiynol yn cael ei dderbyn cyn addasu unrhyw ragdybiaethau i'r dyfodol.

Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019 yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gwnaed sylw bod byw yn hŷn (hirhoedledd) bellach wedi cyrraedd lefel sefydlog a bod angen efallai ail adolygu'r fethodoleg.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 11. BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlinellu penderfyniad y Pwyllgor (Gorffennaf 29ain 2019) i gadarnhau buddsoddiad carbon isel. Penderfynwyd buddsoddi 12% o gyfanswm y gronfa bensiwn yng nghronfa ecwiti Carbon Isel Byd-eang BlackRock. Gan fod cronfeydd BlackRock yn rhan o broses o gaffaeliad ecwiti goddefol 2016 a gynhaliwyd gan Gronfeydd Pensiwn Cymru, eglurwyd nad oedd angen mynd trwy broses gaffael ffurfiol.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi dewis buddsoddi mewn cronfa a reolir gan BlackRock i olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI. Bydd y gronfa hon yn lleihau amlygiad i gwmnïau sy'n allyrru carbon wrth olrhain Mynegai Byd-eang MSCI, gan leihau amlygiad carbon hyd at 80%, yn hytrach na dad-fuddsoddi yn fympwyol. Nodwyd bod Mynegai Carbon Isel MSCI yn feincnod ar gyfer buddsoddwyr sy'n dymuno rheoli risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid i economi carbon isel. Mae'r mynegai yn anelu at darged gwall olrhain o 0.3% (30 pwynt sylfaen) wrth leihau'r amlygiad carbon. Trwy orbwyso mewn cwmnïau sydd ag allyriadau carbon isel (o'i gymharu â gwerthiannau) ac mewn cwmnïau ag

allyriadau carbon potensial isel (fesul doler o gyfalaf ar y farchnad stoc), mae'r mynegai yn adlewyrchu amlygiad carbon is nag un y farchnad eang.

Ategwyd bod y buddsoddiad yma yn un cyfrifol ac yn ymateb i ofynion y Cyngor ynghyd ag egwyddorion buddsoddi'r Pwyllgor Pensiynau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau ffioedd trosglwyddo, amlygodd y Pennaeth Cyllid y byddai rhywfaint o gostau trosiannol, ond ddim swm sylweddol yng nghyd-destun gwerth y buddsoddiad, a gyda'r buddsoddiad yn un tymor hir, byddai'r costau yn lefelu allan.

Amlygodd y Bwrdd eu bod yn gefnogol i benderfyniad y Pwyllgor Pensiynau o ddewis buddsoddi mewn ecwiti carbon isel. Gyda sylw dyddiol yn y wasg i Lywodraethau'r Byd ystyried elfennau hinsawdd ac amgylcheddol, nodwyd bod y penderfyniad yma yn un amserol a doeth. Ategwyd bod elfennau economaidd, cymdeithasol a llywodraethu hefyd yn symud ymlaen yn raddol ac y byddent yn croesawu ystyriaethau cerbydau buddsoddi priodol ar gyfer yr elfennau hyn i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 12. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU - DIWEDDARIAD

Cafwyd diweddariad ac arddangosiad gan y Pennaeth Cyllid ar wefan newydd Partneriaeth Pensiynau Cymru. Adroddwyd bod y wefan wedi ei lansio Medi 2019 ac yn cynnwys gwybodaeth gychwynnol am waith y Bartneriaeth.

Amlygwyd, erbyn dechrau 2020, bydd oddeutu 82% o gronfa Gwynedd wedi ei drosglwyddo i gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, sydd yn gynnydd calonogol o gymharu â chronfeydd mewn sawl pŵl yn Lloegr. Ategodd bod cydweithio da ymysg aelodau'r Bartneriaeth.

Tynnwyd sylw at ddymuniad rhai i gael cynrychiolaeth o'r Byrddau Pensiwn ar Gyd-Bwyllgor y Bartneriaeth, Awgrymodd y Pennaeth Cyllid bod nifer rhesymol o Aelodau a swyddogion eisoes ar y Cyd-Bwyllgor, a bod cyfarfodydd ymgysylltu'n cael eu cynnal ar gyfer Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn. Awgrymwyd bod y trefniant hwn, ar hyn o bryd, yn ddigonol i sicrhau bod y byrddau Pensiwn ac aelodau'r cynllun yn cael cyfrannu a chyflwyno barn.

Gwnaed cais i fanylion y wefan gael ei rannu gyda'r Aelodau.

**Diolchwyd am y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.30 y.h.

**CADEIRYDD**